| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **17 Chwefror 2025** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol Ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Y Ddeddf")**<br>**Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau.**<br>**(Gwahoddir Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol i'r Cyfarfod)** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Swyddog Monitro** |

**1. Cefndir**

Mae'r Ddeddf yn gosod dau brif ddyletswydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ("Arweinyddion") mewn perthynas â safonau ymddygiad Aelodau Grwpiau trwy Adran 62. Y dyletswyddau yw:

- I gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau o'u grŵp.
- Cydweithio gyda'r Pwyllgor Safonau wrth iddo weithredu ei swyddogaethau.

Yn ogystal, mae swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau yn cael eu hymestyn i gynnwys:

- Monitro cydymffurfiaeth Arweinyddion â'r ddyletswydd.
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Arweinyddion ar y ddyletswydd.

Mae'r ddyletswydd newydd bellach wedi dod i rym ers Mai 2022 sydd yn gosod gofyn positif ar Arweinyddion i gymryd camau i hyrwyddo a chynnal ymddygiad. Bydd hyn yn golygu cyd-weithio rhwng y Pwyllgor Safonau ac yr Arweinyddion. Gall hyn fod yn gam cadarnhaol i gefnogi safonau ymddygiad aelodau ac i ddatrys materion yn gynnar.

Mabwysiadwyd Protocol gan y Pwyllgor yn Tachwedd 2022

Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Safonau ar Dydd Llun, 21ain Tachwedd, 2022, 10.30 y.b. (llyw.cymru)

**2. Cyfrifoldebau Pwyllgor Safonau**

Mae'r newidiadau statudol hefyd yn gosod gofyn ar y Pwyllgor Safonau i fonitro cydymffurfiaeth a'r dyletswydd fel y nodir uchod ac adrodd ar hyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol. Er hwyluso a sicrhau proses gytbwys a theg aethpwyd ati felly i sefydlu meini prawf ar gyfer mesur cyflawniad. Defnyddiwyd awgrymiadau oedd wedi eu paratoi yn genedlaethol fel man cychwyn . Adolygwyd y rhain mewn sesiwn briffio rhwng aelodau y Pwyllgor ac Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol. Mae'r meini prawf sydd yn cael eu hargymell wedi ei atodi yn Atodiad 1 ynghyd a ffurf adroddiad yn Atodiad 2. Amcan y cyfarfod yw rhoi cyflëi 'r Pwyllgor a'r Arweinyddion Grwpiau adolygu trefniadau y Protocol .

**Argymhelliad**

**Adolygu gweithrediad y ddyletswydd a chadarnhau trefniadau adrodd wrth symud ymlaen.**